**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

**National Assembly for Wales**
Communities, Equality and Local Government Committee

**Lesley Griffiths AC**
**Y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi**

24 Tachwedd 2015

Annwyl Weinidog

**Ymchwiliad i Dlodi yng Nghymru: dulliau o drechu tlodi yn y gymuned**

Diolch i chi am gytuno i ddod i gyfarfod y Pwyllgor ar 27 Ionawr i drafod materion yn ymwneud ag ail gyfnod ein hymchwiliad i dlodi: dulliau o drechu tlodi yn y gymuned.

Fel rhan o'r ymchwiliad hwn, cyhoeddodd y Pwyllgor alwad am dystiolaeth yn gynharach eleni, gan dderbyn nifer o ymatebion. Roedd yr ymatebion hynny yn tynnu sylw at y ffaith, er bod targedu rhaglenni lleihau tlodi tuag at ardaloedd o dlodi uchel yn cael ei weld yn ddull gweithredu rhesymegol, bod angen dealltwriaeth fwy soffistigedig o ddemograffeg yr ardaloedd hyn, yn ogystal â'r bobl mewn tlodi sy'n byw y tu allan i'r ardaloedd hyn sy'n cael eu targedu. Er hwylustod, rwyf wedi atodi crynodeb byr o'r pwyntiau allweddol o'r ymatebion yn yr atodiad i'r llythyr hwn.

Cyn y cyfarfod ar 27 Ionawr, ac yn ychwanegol at unrhyw bwyntiau cyffredinol eraill yr hoffech eu gwneud, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn ystyried ac yn ymateb i'r cwestiynau a nodir isod. Hoffai'r Pwyllgor ddychwelyd at yr ymgyngoreion am ddiweddariad cyn y cyfarfod, a rhannu eich ymateb â nhw. I'r perwyl hwn, byddai'n ddefnyddiol pe gallem gael eich ymateb erbyn **7 Ionawr**.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCCLLL@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCCLLL
0300 200 6565

**National Assembly for Wales**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCELG@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCELG
0300 200 6565

**Cwestiwn 1**

Yn eich ymateb i'n hadroddiad cyntaf (Tlodi ac Anghydraddoldeb), dywedoch fod swyddogion yn bwriadu gwneud dadansoddiad pellach o'r dangosyddion sy'n sail i Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru. Nodoch y bydd hynny'n rhoi data ar lefel ardaloedd bychain am wahanol fathau o amddifadedd ymhlith plant a phobl ifanc, ac y bydd data hefyd yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ardaloedd daearyddol mwy, gan gynnwys awdurdodau lleol. Dywedoch hefyd fod y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, mewn partneriaeth â'r Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru, wedi ariannu pedwar prosiect fel rhan o'r Ganolfan Beth sy'n Gweithio o ran Trechu Tlodi.

1.1 O ganlyniad i'r gwaith hwn, sut ydych chi'n bwriadu adolygu gwaith Llywodraeth Cymru o dargedu ardaloedd o ran rhaglenni gwrth-dlodi er mwyn sicrhau mai dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau tlodi?

1.2 Sut ydych chi'n ymateb i'r dystiolaeth rydym wedi'i derbyn sy'n awgrymu, er bod y gwaith o dargedu ardaloedd i leihau tlodi yn rhesymegol, bod angen dealltwriaeth fwy soffistigedig o ddemograffeg ardaloedd lleol i'w wneud yn fwy effeithiol?

1.3 Sut y byddwch yn sicrhau bod pobl mewn tlodi sy'n byw y tu allan i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn gallu manteisio ar raglenni a gwasanaethau gwrth-dlodi?

**Cwestiwn 2**

Mae Sefydliad Bevan a Sefydliad Joseph wedi tynnu sylw at dystiolaeth sy'n dangos bod mai targedu ardaloedd sy'n gweithio orau o ran gwella tai a materion amgylcheddol lleol, ac o ran cyflawni canlyniadau 'meddal', ond bod hyn yn llai effeithiol wrth fynd i'r afael â phroblemau iechyd, addysg a chyflogaeth.

2.1 Sut y mae Llywodraeth Cymru wedi ystyried hyn wrth lunio'i rhaglenni lleihau tlodi?

2.2 Sut y mae'ch gwaith o dargedu ardaloedd yn bennaf i leihau tlodi yn cyd-fynd ag uchelgeisiau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015?

2.3 Rydym yn nodi cynnig Llywodraeth Cymru i wneud 'pobl sy'n byw mewn tlodi' yn ddangosydd cenedlaethol fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Sut y bydd Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn

dwyn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru i gyfrif ar eu hymdrechion i leihau tlodi?

2.4 Pa ddata arall fydd yn cael ei olrhain o dan y dangosydd hwn, er enghraifft tlodi mewn gwaith, tlodi tanwydd neu dlodi bwyd?

**Cwestiwn 3**

Yn eich ymateb i'n hadroddiad cyntaf, rydych yn amlinellu nifer o allbynnau o'ch rhaglenni gwrth-dlodi allweddol, gan gynnwys dros 32,000 plant yn elwa ar Dechrau'n Deg y llynedd a mwy na 2,700 o Gynlluniau Gweithredu Tîm o Amgylch y Teulu yn dod i ben yn llwyddiannus drwy Teuluoedd yn Gyntaf.

3.1 Beth yw canlyniadau cyffredinol pob un o'r rhaglenni hyn, er enghraifft, faint o blant y mae Dechrau'n Deg wedi'u codi allan o dlodi?

**Cwestiwn 4**

Rydych yn nodi yn eich ymateb eich bod wedi "cynyddu cyllid y Grant Amddifadedd Disgyblion a'r Rhaglen Cefnogi Pobl yn sylweddol". Fodd bynnag, mae Cartrefi Cymunedol Cymru a Chymorth Cymru yn honni bod y gyllideb Cefnogi Pobl wedi cael ei thorri gan £10m i £124.4m yn 2015-16 - 7.6% o gyfanswm y gyllideb gyffredinol Cefnogi Pobl.

4.1 A allwch egluro sefyllfa'r gyllideb Cefnogi Pobl?

**Cwestiwn 5**

Canfu ymchwil diweddar gan Sefydliad Joseph Rowntree, o'i gymharu â deng mlynedd yn ôl, fod mwy o bobl o oedran gweithio mewn tlodi erbyn hyn (yn enwedig oedolion ifanc), a bod o blant a phensiynwyr yn y sefyllfa hon. Mae hefyd yn dangos bod tlodi wedi cynyddu ymysg teuluoedd sy'n gweithio ac wedi gostwng ymysg teuluoedd heb waith; ni fu unrhyw ostyngiad yn nifer y cyflogau isel yng Nghymru ers degawd, gyda chyfran y swyddi sydd ar gyflog isel yn aros ar tua 25 y cant. Mewn cyfanswm o 270,000 o swyddi, swyddi sydd gan fenywod gan fwyaf, mae'r tâl fesul awr yn ddau draean o ganolrif y DU; bydd cyflwyno'r cyflog byw cenedlaethol ond yn gwneud iawn yn rhannol am y toriadau mewn credydau

treth: bydd rhai teuluoedd sydd â phlant yn arbennig mewn sefyllfa waeth. Bydd effaith anghymesur ar y Gymru wledig.

5.1 Dywedoch wrthym nad oes unrhyw gynlluniau i adolygu'r Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi ar unwaith. O ystyried y cynnydd mewn tlodi ymhlith teuluoedd mewn gwaith, a'r gostyngiad mewn tlodi plant a phensiynwyr, sut y bydd hyn yn cael ei adlewyrchu yn y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi (yn hytrach na'r Strategaeth Tlodi Plant) yn y dyfodol?

**Cwestiwn 6**

Ymrwymodd Adroddiad Blynyddol 2015 y Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi i fuddsoddi'n benodol mewn gwella sefyllfa menywod yn y gweithlu, drwy anelu at helpu dros 5,000 o weithwyr benywaidd i weithio tuag at gymwysterau a sefyllfa well yn y farchnad lafur.

6.1 A allwch roi mwy o wybodaeth i ni am yr ymrwymiad hwn, a dweud wrthym sut rydych wedi ymgysylltu'n uniongyrchol â chynrychiolwyr o'r sectorau preifat a busnes yng Nghymru i nodi cyfleoedd ar gyfer cydweithio, fel y nodir yn yr adroddiad.

Edrychaf ymlaen at eich ymateb.

Yn gywir,



**Christine Chapman AC**

Cadeirydd

**Atodiad: crynodeb o'r pwyntiau allweddol o'r dystiolaeth ysgrifenedig**

Mae'r rheini a ymatebodd i'n galwad am dystiolaeth ysgrifenedig wedi dweud y canlynol wrthym:

- mae rhaglenni lleihau tlodi Llywodraeth Cymru yn cael eu targedu'n helaeth at fannau penodol, ac mae rhagdybiaeth bod y boblogaeth yn yr ardaloedd hyn yn homogenaidd;
- nid yw llawer o bobl sy'n byw mewn tlodi yn derbyn gwasanaethau a chymorth oherwydd eu bod yn byw tu allan i'r ardaloedd a dargedir;
- mae pobl mewn ardaloedd gwledig yn debygol o fyw y tu allan i ardaloedd a dargedir;
- tynodd Ymddiriedolaeth Trussell sylw at y twf mewn banciau bwyd mewn ardaloedd cefnog fel Trefynwy ac Aberhonddu. Nid yw'r ardaloedd hynny yn derbyn cyllid Cymunedau yn Gyntaf, ond mae'r cynnydd mewn tlodi bwyd yn dangos bod mannau sylweddol o amddifadedd o hyd;
- rhaglenni sy'n targedu ardaloedd sy'n gweithio orau o ran gwella tai a materion amgylcheddol lleol, ac o ran cyflawni canlyniadau 'meddal', ond maent yn llai effeithiol wrth fynd i'r afael â phroblemau iechyd, addysg a chyflogaeth;
- nododd y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol y gall pobl anabl, grwpiau lleiafrifoedd ethnig, rhieni unigol a phobl hŷn ddioddef tlodi difrifol, ond na fyddant o reidrwydd yn elwa o waith targedu ardaloedd oherwydd nad yw'n ddigon hyblyg i ddiwallu'u hanghenion;
- canfu Dr Peter Matthews ym Mhrifysgol Stirling mai prin y mae polisïau gwrth-dlodi sy'n canolbwyntio ar gymdogaethau difreintiedig yn ystyried profiadau gwahanol dynion a menywod o dlodi; bod merched yn ymuno â marchnad lafur gwahanol o fan cychwyn gwahanol, yn aml â chyfrifoldebau gofal;
- ceir cydgysylltu gwael rhwng Cymunedau yn Gyntaf, Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Ardaloedd Menter a rhaglenni adfywio. Hefyd, nid yw ddaearyddiaeth y rhaglenni hyn yn cyd-fynd bob amser;
- canfu gwerthusiad diweddar o Cymunedau yn Gyntaf fod amrywiaeth sylweddol mewn perfformiad rhwng ardaloedd, ac er bod y rhaglen wedi gwella, ceir problemau o hyd wrth werthuso effaith a chynnydd.